Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2025 – 2029

**Mae angen eich help arnom gyda'r canlynol:**

Nawr mae angen eich help arnom i adolygu'r ddogfen ddrafft a ddeilliodd o'r gweithdai hyn.

Rhowch adborth ynghylch y canlynol:

1. **Argraffiadau cyffredinol:** Beth yw eich meddyliau ynghylch y ddogfen? A yw'n glir ac a yw'n bodloni eich disgwyliadau?
2. **Eglurder ynghylch nodau:** A yw ein nodau a'n hamcanion wedi'u diffinio'n glir yn y ddogfen?
3. **Esboniad ar atebion:** A oes angen mwy o fanylion neu esboniad ar unrhyw atebion neu syniadau? Ydych chi'n glir sut y byddant yn mynd i'r afael â'r problemau?
4. **Pryderon am weithgareddau:** A oes gennych unrhyw bryderon am y gweithgareddau arfaethedig? A fyddan nhw'n datrys y problemau rydyn ni wedi'u nodi yn effeithiol?
5. **Sylwadau ychwanegol**: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill?

**Pam y mae eich adborth yn bwysig:**

Mae eich adborth yn hanfodol oherwydd y canlynol:

- **Sicrhau eglurder:** Bydd yn ein helpu i sicrhau bod ein nodau a'n hamcanion yn cael eu cyfleu a'u deall yn glir.
- **Mynd i'r afael â phryderon:** Mae tynnu sylw at broblemau posibl gyda'r gweithgareddau arfaethedig yn ein galluogi i wneud addasiadau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn effeithiol.
- **Gwella effeithiolrwydd:** Bydd eich mewnbwn yn sicrhau bod y ddogfen yn mynd i'r afael â'r problemau yn effeithiol ac yn cyflawni ein canlyniadau arfaethedig, gan wella cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil.

Mae eich mewnwelediad yn hanfodol ar gyfer llunio dogfen Darganfod Eich Rôl newydd sy'n adlewyrchu ein hamcanion ac yn cyfleu ein cynlluniau yn effeithiol. Diolch am eich cyfraniad gwerthfawr.

Casglwyd yr wybodaeth ganlynol yn ystod digwyddiadau cyd-ddylunio ac ymgysylltu 2024:

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Adnoddau**

- **Dim digon o arian ar gyfer gweithgareddau cynnwys.**
- **Diffyg amser wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd.**

Rydym yn deall bod sicrhau cynnwys y cyhoedd ystyrlon yn gofyn am amser ac adnoddau. Mae disgwyliadau gan gyllidwyr, rheoleiddwyr, a'r cyhoedd ynghylch yr hyn sy'n diffinio cynnwys y cyhoedd 'da' yn cynyddu'n barhaus. Er mwyn datblygu a chyflawni cynnwys y cyhoedd gwirioneddol ystyrlon, mae dull creadigol a chydweithredol yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu a chyfuno adnoddau, ac eirioli dros gydnabyddiaeth briodol o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnwys y cyhoedd a chleifion.

## Meysydd ffocws

Archwilio strategaethau a modelau creadigol i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau cyfredol a ddyrennir ar gyfer cynnwys y cyhoedd. Casglu a rhannu gwybodaeth am dimau cynnwys y cyhoedd a'r adnoddau presennol i wella cydweithio ac effeithiolrwydd.

## Camau gweithredu a awgrymir

1. Ffurfio grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio modelau adennill costau ar gyfer cyllido Cynnwys y Cyhoedd. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried a oes modd datblygu a rhoi dull gweithredu ledled Cymru ar waith i rannu adnoddau a gwella ymdrechion cynnwys y cyhoedd, gyda'i gilydd.
2. Gwaith tîm strategol a chydweithio ag arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd ledled Cymru:
    a. Datblygu cronfa ddata gynhwysfawr o arweinwyr cynnwys y cyhoedd: Creu cronfa ddata o'r holl arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o sefydliadau allanol. Bydd hyn yn hwyluso cydweithio a rhannu adnoddau pan fo cyllid yn gyfyngedig.
    b. Annog cydweithio ymhlith cymunedau a ariennir: Hyrwyddo cydweithio ymhlith cymunedau a ariennir drwy ei gwneud yn ofynnol i dimau rannu adnoddau a gwybodaeth fel amod aelodaeth yn ein cynghrair cynnwys.

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Cynwysoldeb**

- **Anhawster wrth gynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gydag amser ac adnoddau cyfyngedig.**
- **Angen mwy o gyfleoedd datblygu sgiliau i gyfranwyr cyhoeddus, megis cadeirio cyfarfodydd.**

Mae cynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil, o dan gyfyngiadau amser tynn yn her fawr. Heb gynllun clir ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn, gallent gael eu hanwybyddu, sy'n cyfyngu ar amrywiaeth safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau. Yn ogystal, mae angen rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau cyhoeddus ddatblygu sgiliau hanfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ystyrlon a bod pob llais yn cael ei glywed.

Mae ymchwilwyr hefyd yn wynebu anawsterau wrth geisio cynnwys cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil a gwneud penderfyniadau. Mae meithrin cysylltiadau cryf gyda'r grwpiau hyn yn aml yn heriol ac a wnaed yn waeth gan ddiffyg hyfforddiant arbenigol ar arferion cynhwysol a'r angen am gymorth wedi'i deilwra i gynnwys y cymunedau hyn yn effeithiol.

## Meysydd ffocws

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn cynnig datblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2022/23 'Ble fydden ni heb ymchwil?' drwy greu

cynlluniau clir ar gyfer cynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol a chynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer ymchwilwyr ac aelodau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys allgymorth a hyfforddiant wedi'i dargedu mewn meysydd allweddol, megis hwyluso cyfarfodydd, cynyddu cynwysoldeb ac effaith cynnwys y cyhoedd. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod ystod ehangach o safbwyntiau'n cael eu cynnwys ac yn grymuso pobl i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan arwain at ganlyniadau mwy cynrychioliadol ac ystyrlon.

Rydym hefyd yn cynnig defnyddio Cronfa Galluogi Cynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i helpu ymchwilwyr i gysylltu'n fwy effeithiol â grwpiau cymunedol. Bydd darparu hyfforddiant arbenigol i ymchwilwyr ar arferion ymgysylltu cynhwysol, ynghyd â chefnogaeth grŵp cynghori ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a mentrau cymunedol a ariennir yn gwella'r strategaethau ymhellach ar gyfer cynnwys cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Nod y mesurau hyn yw sicrhau bod grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol yn cael eu cynnwys yn ystyrlon mewn ymchwil a bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n dda.

## Camau gweithredu a awgrymir

Darparu cyfleoedd i aelodau cyhoeddus o gymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i helpu i lunio ymchwil, gan wella cynwysoldeb o fewn y gymuned ymchwil. Canolbwyntio ar ddulliau cynaliadwy i sicrhau bod y cymunedau hyn yn cael eu cynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn gweithgareddau ymchwil.

Datblygu pecynnau cymorth i gefnogi ymchwilwyr i gynnwys grwpiau cymunedol sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol yn effeithiol mewn ymchwil, gan fynd i'r afael â rhwystrau rhag cynnwys a sicrhau cynwysoldeb.

1. Gweithredu cynllun allgymorth cymunedol i wella ymgysylltiad â grwpiau cymunedol amrywiol.
    a. Bydd hyn yn cynnwys creu templed cyflwyniad y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion a buddion penodol gwahanol gymunedau, a gyflwynir mewn partneriaeth â'n harweinwyr cynnwys y cyhoedd, er mwyn sicrhau negeseuon cyson a chynigion cynnwys y cyhoedd.
    b. Datblygu negeseuon allweddol i'r gymuned ymchwil eu defnyddio wrth wneud cyflwyniadau i sefydliadau allanol, gan sicrhau cyfathrebu cyson ac effeithiol.
    c. Creu a chynnal rhestr gyswllt gynhwysfawr o grwpiau cymunedol a meithrin perthnasoedd proffesiynol gyda'r sefydliadau hyn er mwyn hwyluso cydweithredu a chynnwys effeithiol.
2. Datblygu canllaw digwyddiadau cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned sy'n sicrhau cynnwys cynrychiolwyr amrywiol yn y camau cynllunio, gweithredu a gwerthuso.
3. Nodi a gweithredu'r dulliau gorau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, gan sicrhau bod cynrychiolwyr amrywiol yn ymwneud â chynllunio, cyflwyno a gwerthuso. Gan gynnwys datblygu ffurflen werthuso safonol y gellir ei golygu i helpu gyda'r gwaith casglu ac olrhain data.
4. Ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i bennu'r dulliau gorau ar gyfer cynnwys grwpiau cymunedol sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil ac archwilio modelau cynaliadwy amrywiol.

    Amcanion y gweithgor i gefnogi ymchwilwyr cynnwys y cyhoedd:

    a. Datblygu canllawiau arfer gorau i helpu ymchwilwyr i gysylltu ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn effeithiol.
    b. Creu dull clir a strwythuredig i ymchwilwyr gyrraedd a chynnwys cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.

   c. Gosod canllawiau clir i ymchwilwyr eu dilyn wrth ddefnyddio'r model newydd i gynnwys grwpiau cymunedol sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil. Dylai'r meini prawf hyn sicrhau cynnwys ystyrlon a mynediad teg i'r grwpiau hyn.

5. Hyfforddiant Cynnwys-benodol i Ymchwilwyr
   a. Creu a darparu rhaglenni hyfforddi sydd wedi'u cynllunio i hysbysu ymchwilwyr sut i gynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil yn effeithiol. Bydd y rhaglenni hyn yn arfogi ymchwilwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen i gynnwys y cymunedau hyn yn ystyrlon.
   b. Adeiladu ar ganllawiau Cynghreiriaeth ac ymgorffori canfyddiadau gwaith ar y cyd â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) mewn dogfen ganllaw sy'n eiddo i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
6. Bod yn bartner gyda'r grŵp cynghori ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a sefydliadau cymunedol a ariennir i ddylunio a darparu hyfforddiant i ymchwilwyr. Bydd y cydweithrediad hwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn adlewyrchu profiadau cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Cyfleoedd – Uwchsgilio aelodau cyhoeddus**

- **Mae cyfleoedd yn aml yn gofyn am brofiad blaenorol, sy'n eithrio newydd-ddyfodiaid.**

Weithiau efallai na fydd gan gyfranwyr cyhoeddus ddigon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau, megis dysgu sut i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol. Mae'r bwlch sgiliau hwn yn cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu'n ystyrlon at brosesau ymchwil a gwneud penderfyniadau. Hefyd, mae angen cefnogaeth ac addysg barhaus i helpu aelodau cyhoeddus i wella eu galluoedd a chyfranogi'n fwy effeithiol.

## Meysydd ffocws

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn cynnig ehangu ac arallgyfeirio rhaglenni datblygu sgiliau ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd addysg parhaus a gwella mynediad at adnoddau wedi'u targedu. Byddwn yn datblygu cyfres gynhwysfawr o raglenni hyfforddi ac yn sefydlu amserlen hyfforddi flynyddol yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu i nodi'r sgiliau y mae aelodau cyhoeddus eisiau eu datblygu.

Yn ogystal, byddwn yn cynnwys y gymuned ymchwil ac arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd wrth ddarparu'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ymarferol. Byddwn hefyd yn trosoli adnoddau presennol, fel y rhai o'r wefan Learning for Involvement, i nodi modiwlau hyfforddi perthnasol. Nod y dull hwn yw rhoi'r sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i gyfranwyr cyhoeddus i wella eu cynnwys a'u heffaith mewn prosesau ymchwil a gwneud penderfyniadau.

## Camau gweithredu a awgrymir

Ehangu ac arallgyfeirio rhaglenni datblygu sgiliau, darparu cyfleoedd addysg parhaus, a gwella mynediad at adnoddau wedi'u targedu ar gyfer aelodau cyhoeddus.

1. Cymorth ychwanegol i aelodau cyhoeddus – Uwchsgilio

   a. Darparu cymorth wedi'i dargedu i aelodau cyhoeddus i'w helpu i ddatblygu sgiliau newydd a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes. Datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddi i nodi bylchau gwybodaeth neu sgiliau, i'w gyflawni wrth gofrestru i'n cymuned.
2. Datblygu cyfres o hyfforddiant i aelodau cyhoeddus
   a. Creu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr wedi'i theilwra i anghenion aelodau cyhoeddus. Cael modiwlau hyfforddi a syniadau drwy ymgymryd ag ymarfer cwmpasu gydag aelodau cyhoeddus presennol a newydd.
   b. Sicrhau bod aelodau cyhoeddus yn cael gwybod am sesiynau hyfforddi perthnasol o ansawdd uchel ac yn cael cyfle i gyfranogi ynddynt
3. Sefydlu rhestr flynyddol o sesiynau hyfforddi
   a. Cynllunio a chyhoeddi amserlen flynyddol o sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau cyhoeddus.

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Cyfleoedd**

- **Mae'r broses ar gyfer dod o hyd i gyfleoedd cynnwys yn ailadroddus ac yn cymryd llawer o amser.**
- **Anhawster wrth geisio dod o hyd i restr gynhwysfawr o'r cyfleoedd sydd ar gael.**

Mae'r broses bresennol o gynnwys rhywun mewn ymchwil yn aml yn ailadroddus ac yn cymryd llawer o amser, gan achosi rhwystredigaeth i'r rhai sydd â diddordeb mewn cyfranogi. Mae llawer o gyfleoedd yn gofyn am brofiad blaenorol, sy'n gallu gwneud ymuno yn llai atyniadol i newydd-ddyfodiaid sy’n awyddus i ymuno. Yn ogystal, mae'n aml yn anodd dod o hyd i restr gyflawn o gyfleoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sydd ar gael, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl wybod sut i gael eu cynnwys. O ganlyniad, efallai y bydd y cymhlethdod a'r gofynion amser yn digalonni darpar gyfranwyr, gan arwain at lai o bobl yn cefnogi ymdrechion ymchwil.

## Meysydd ffocws

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn cynnig optimeiddio strategaethau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. Mae hyn yn cynnwys symleiddio'r broses ymgeisio i leihau ailadrodd ac arbed amser i gyfranwyr. Er mwyn gwella hygyrchedd, byddwn yn creu a chynnal rhestr gynhwysfawr hygyrch o'r cyfleoedd sydd ar gael, gan sicrhau y gall unigolion â diddordeb ddod o hyd i gyfleoedd perthnasol ac ymgysylltu â nhw yn haws.

## Camau gweithredu a awgrymir

Optimeiddio strategaethau i sicrhau y gall unigolion gael eu cynnwys mewn cyfleoedd ymchwil yn ystyrlon ac effeithiol.

1. Symleiddio'r broses ymgeisio:
   a. Creu ffurflenni symlach ar ein gwefan – gan wneud ffurflenni yn llai cymhleth drwy ofyn am wybodaeth hanfodol yn unig. Opsiynau awtolanw – gan ganiatáu i aelodau gadw eu gwybodaeth a'u ffurflenni awtolanw.
   b. Sefydlu gweithgor Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ymchwilwyr, aelodau cyhoeddus ac arweinwyr cymunedol, i gynorthwyo tîm Cynnwys y Cyhoedd i ddatblygu a gweithredu strategaethau

ar gyfer cynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwneud cais am gyfleoedd ymchwil.

2. Cynnig cyfres o hyfforddiant i aelodau cyhoeddus sydd eisiau parhau â'u taith cynnwys y cyhoedd ac uwchsgilio
    a. Datblygu sesiynau hyfforddi ar gyfer ymgeiswyr ar sut i lywio'r cyfleoedd cynnwys. Datblygu fideo sy'n esbonio'n syml sut i lenwi'r mynegiannau o ddiddordeb.
    b. Mynd i'r afael â'r broblem o gyfleoedd sydd yn aml angen profiad blaenorol drwy gydweithio ag ymchwilwyr i ddiffinio'r sgiliau angenrheidiol yn glir. Amlygu gwerth y gall safbwyntiau newydd gan aelodau cyhoeddus a oedd heb eu cynnwys o'r blaen eu cynnig.

3. Targedu cyfathrebiadau a chyfleoedd ar gyfer aelodau cyhoeddus sydd â phrofiad bywyd perthnasol, gan ddefnyddio rhwydweithiau sefydledig yn hytrach na'r dull cyffredinol presennol.

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Taliadau**

- **Prosesau talu cymhleth sy'n gwneud cael eu cynnwys yn llai atyniadol i unigolion.**
- **Yn aml, nid oes gan anfonebau fanylion, gan ei gwneud hi'n anodd rheoli cyllid.**

Mae rhwystrau gweinyddol, megis prosesau talu cymhleth, yn creu heriau sylweddol o ran cynnwys aelodau cyhoeddus mewn ymchwil a gwneud penderfyniadau. Gall anawsterau gyda gweithdrefnau talu wneud cael eu cynnwys yn llai atyniadol, yn enwedig ymhlith rhai grwpiau neu unigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r rhwystrau hyn. Hefyd, yn aml nid oes gan anfonebau taliadau wybodaeth fanwl am y gweithgareddau y mae aelodau cyhoeddus yn cael eu digolledu amdanynt, gan ei gwneud hi'n heriol iddynt olrhain eu henillion a rheoli ffurflenni treth.

## Meysydd ffocws

Symleiddio prosesau talu ar gyfer aelodau cyhoeddus a mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol i wella eu cynnwys effeithiol.

## Camau gweithredu a awgrymir

1. Datblygu'r gwelliannau a wnaed yn y prosiect Darganfod Eich Rôl cychwynnol i symleiddio gweithdrefnau talu ymhellach. Mae hyn yn rhan o ymdrechion y tîm cynnwys y cyhoedd ledled y DU, gan weithio gyda nhw i symleiddio a gwella'r broses dalu.
2. Dylunio, datblygu a chyflwyno sesiynau hyfforddi ar gyfer arweinwyr cyhoeddus a chyllid i bwysleisio pwysigrwydd talu amserol i aelodau cyhoeddus ac egluro'r gwahaniaethau rhwng cael eich cynnwys a chael eich cyflogi.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Effaith**

- **Mae cyfathrebu gwael parhaus gan dimau astudio yn golygu nad yw cyfranwyr yn ymwybodol o ganlyniadau.**
- **Nid yw'n glir sut mae ymchwil yn effeithio ar wasanaethau yng Nghymru a rôl cynnwys y cyhoedd.**

Mae aelodau cyhoeddus yn dylanwadu ar ymchwil mewn sawl ffordd, gan gynnwys yr effaith ar yr ymchwil ei hun ac ar yr unigolion dan sylw. Un her wrth gynnal cynnwys y cyhoedd yw'r diffyg cyfathrebu ac adborth cyson gan dimau astudio. Mae hyn yn aml yn golygu nad yw aelodau cyhoeddus yn ymwybodol o'r effaith y maent wedi'i chael a chanlyniadau astudiaethau, a all leihau gwerth canfyddedig eu cyfraniadau a lleihau eu diddordeb mewn cael eu cynnwys mewn prosiectau yn y dyfodol. Mae cael eu cynnwys yn gwneud ymchwil yn fwy perthnasol i'r rhai sydd â chyflyrau sy'n cael eu hastudio neu sy'n defnyddio gwasanaethau yr ymchwilir iddynt, ac felly'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd canfyddiadau ymchwil yn cael effaith sylweddol ar wasanaeth y GIG ei hun. Fodd bynnag, nid oes llawer o eglurder yn aml ynghylch sut mae canfyddiadau ymchwil yn llunio gwasanaethau Cymru a'r rôl benodol y mae cynnwys y cyhoedd yn ei chwarae yn y canlyniadau hyn.

## Meysydd ffocws

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn cynnig sefydlu sianeli cyfathrebu cadarn rhwng timau astudio a chyfranwyr cyhoeddus i sicrhau ymgysylltiad parhaus a diweddariadau clir ar ganlyniadau astudiaethau a sut mae cael eu cynnwys wedi dylanwadu ar yr ymchwil neu heb ddylanwadu arni. Bydd hyn yn helpu i ddangos effaith cynnwys y cyhoedd ac yn sicrhau bod cyfranwyr yn parhau i fod yn llawn cymhelliant ac yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf.

## Camau gweithredu a awgrymir

Sefydlu sianeli a dulliau cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad parhaus gan dimau astudio a dangos yn glir effaith cynnwys y cyhoedd.

1. Datblygu a chynnal canllaw a chronfa ddata fanwl i olrhain a dogfennu effaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. Hefyd, diffinio ac egluro beth sy'n cael ei ystyried yn weithgareddau effaith cynnwys.
2. Sefydlu system orfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymchwilwyr ac aelodau cyhoeddus ddefnyddio ein gwasanaeth cymorth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am effaith eu gwaith.
    a. Cofnodi effaith ar astudiaethau ymchwil a'u rhannu â'n cynulleidfaoedd
    b. Cofnodi effaith ysgafn, y gwahaniaeth a wnaeth cael eu cynnwys i unigolion
3. Sefydlu dulliau effeithiol ar gyfer rhannu ac amlygu'r diweddariadau hyn gydag ymchwilwyr ac aelodau cyhoeddus.
4. Cynnwys enghreifftiau o effaith mewn rhaglenni allgymorth ymgysylltiad, dathlu a dangos effaith llais y cyhoedd mewn ymchwil.

## Datganiadau Problem / meysydd i'w gwella

**Gwerthuso Darganfod Eich Rôl**

- **Effaith gyffredinol Darganfod Eich Rôl a gweithio i gynllun ar y cyd i wella Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yng Nghymru. Sut i fonitro a chofnodi hyn.**

Yn aml, mae diffyg eglurder ynghylch sut mae canlyniadau ymchwil yn effeithio ar wasanaethau yng Nghymru a chyfraniadau penodol cynnwys y cyhoedd. Heb ddeall yr effeithiau hyn, mae'n anodd mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd mentrau fel Darganfod Eich Rôl. Gall yr ansicrwydd hwn danseilio gwerth canfyddedig cynnwys y cyhoedd a rhwystro ymdrechion i wella ac ehangu'r mentrau hyn.

## Meysydd ffocws

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn cynnig gweithredu fframwaith gwerthuso cynhwysfawr i asesu effeithiolrwydd ac effaith y fenter Darganfod Eich Rôl. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys datblygu meini prawf gwerthuso penodol i fesur llwyddiant a phenderfynu ar effaith y fenter. Hefyd, byddwn yn sefydlu grŵp cynghori i oruchwylio a monitro datblygiad a chyflawni camau gweithredu yn Darganfod Eich Rôl. Bydd hyn yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus ac yn darparu adborth gwerthfawr i wella effeithiolrwydd y fenter a dangos gwerth cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil.

## Camau gweithredu a awgrymir

**Gweithredu fframwaith gwerthuso cynhwysfawr i asesu effeithiolrwydd ac effaith y fenter Darganfod Eich Rôl.**

1. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddarparu goruchwyliaeth, arweiniad ac adborth parhaus, gan sicrhau gwelliant parhaus i'r fenter.
2. Datblygu Fframwaith Gwerthuso: Creu fframwaith cynhwysfawr i asesu cynnydd ac effaith y fenter Darganfod Eich Rôl, olrhain a dadansoddi aelodau o'r gymuned, amrywiaeth a phobl sy'n gwneud cais am gyfleoedd ymchwil.
3. Diffinio metrigau llwyddiant: Sefydlu meini prawf a meincnodau clir i fesur effeithiolrwydd a chanlyniadau'r fenter.